# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2017/18



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cefndir | 3 |
| Dibenion y Parc | 4 |
| Nodau Llesiant ar gyfer Cymru | 5 |
| Amcanion Llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol | 6 |
| Cyllid | 8 |
| Amcan Llesiant 1: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. | 10 |
| Amcan Llesiant 2: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. | 17 |
| Amcan Llesiant 3: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau | 22 |
| Amcan Llesiant 4: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC | 28 |
| Amcan Llesiant 5: Annog cymunedau i ymgysylltu'n fwy â'r Parc Cenedlaethol | 34 |
| Amcan Llesiant 6: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal | 40 |
| Amcan Llesiant 7: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang | 44 |
| Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol | 49 |
| Amcangyfrif Drafft Cryno – Gwariant Gros 2017/18 ar y 7 Nod Llesiant | 53 |

## Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cyflawni amrywiaeth eang o waith sy'n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal leol o reoli cadwraeth a mynediad ar gyfer y cyhoedd i gefnogi'r economi leol a chymeradwyo datblygiadau tai fforddiadwy. Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn cwrdd â disgwyliadau ein cwsmeriaid, yn drigolion ac ymwelwyr, a Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod o gyfyngiadau economaidd.

Mae'n ofynnol ar hyn o bryd i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella Blynyddol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 hefyd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei amcanion llesiant ac i ddangos sut y mae'r rhain yn cyfrannu at saith Nod Llesiant Llywodraeth Cymru. Er mwyn lleihau'r gofynion o ran adnoddau mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i ddefnyddio'r un fformat ar gyfer eu Cynlluniau Corfforaethol sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn ystod 2016/17, fe wnaeth yr Awdurdod, ynghyd â'r ddau APC arall yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Cymru, dreialu dull newydd o ateb y gofynion o ran archwilio. Bydd hyn yn parhau yn ystod 2017/18.

Pob blwyddyn mae'r Awdurdod yn dechrau ei gylch blaengynllunio gwaith a pharatoi'r gyllideb ym mis Hydref er mwyn cymeradwyo cyllideb fantoledig erbyn 15 Chwefror. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn dechrau â saith nod llesiant Llywodraeth Cymru ac yn nodi amcanion llesiant a rhaglenni gwaith yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 i gyfrannu at y rhain fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn wynebu galwadau sy'n cynyddu ac sydd weithiau'n gwrthdaro â'i gilydd i gyflawni cadwraeth, mynediad ar gyfer y cyhoedd, cyflogaeth leol a thai fforddiadwy, a hynny ar adeg pan fo cyfyngiadau ar adnoddau. Wrth baratoi'r cynllun hwn rydym wedi adolygu'r cynnydd yn ystod blynyddoedd blaenorol a hefyd wedi ystyried unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu gymdeithas yn gyffredinol ac mewn cyllid a allai effeithio ar ein gwaith.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn y cynllun hwn rydym wedi amlygu sut y caiff yr egwyddorion datblygu cynaliadwy eu sefydlu fel rhan annatod o waith yr Awdurdod gan gyfeirio at bob un o Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

## Cefndir

### Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi ym 1952 dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae’r Parc Cenedlaethol yn gorchuddio ardal ag arwynebedd o 612km$^2$, gydag oddeutu 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Mae’r rhan fwyaf o’r Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat gyda’r Awdurdod yn berchen ar 1% yn unig.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol dibenion arbennig annibynnol dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae’r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, 12 ohonynt wedi’u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwe wedi’u penodi gan Lywodraeth Cymru.

## Dibenion y Parc

Mae’r Ddeddf yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc
- Hyrwyddo cyfleoedd i’r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

Mae’r Ddeddf hefyd yn datgan bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Mae’r Awdurdod yn cyfranni at nodau ehangach Llywodraeth Cymru a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu “**Symud Cymru Ymlaen**”. Hefyd, mae’r Awdurdod yn cwrdd â’r dyheadau am wasanaethau cyhoeddus gwell a nodir mewn polisi a deddfwriaeth gan gynnwys Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Yr Awdurdod yw’r awdurdod cynllunio gofodol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae’n gyfrifol am baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol. Bob pum mlynedd mae’n ofynnol i’r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol sy’n nodi sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid dim ond gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc. Bydd dogfennau allweddol megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN), Datganiadau Ardal ac Asesiad Llesiant Sir Benfro (sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017) yn darparu sail dystiolaeth a chyfeiriad polisi i oleuo gwaith yr Awdurdod tra pery’r cynllun hwn ac yn cyfrannu tuag at ddatblygu dull sydd wedi’i deilwra’n lleol o wella cydnerthedd y Parc Cenedlaethol.


## Nodau Llesiant ar gyfer Cymru

Mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau hwn wedi'i strwythuro i ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Awdurdod yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ac yn cyfrannu at waith i ddatblygu Asesiad Llesiant Sir Benfro a fydd yn arwain at greu'r Cynllun Llesiant Lleol. Bydd yr Awdurdod yn pennu ei nodau llesiant pan fydd Cynllun Llesiant Sir Benfro wedi cael ei gytuno (ym mis Mai 2018). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r canlyniadau canlynol i awdurdodau cyhoeddus eu cyflawni.

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| Cymru lewyrchus. | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth. | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach. | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal. | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Amcanion Llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Er bod Asesiad Llesiant (a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017) a Chynllun Llesiant (sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2018) Sir Benfro heb gael eu cwblhau, fel mesur interim mae'r Awdurdod wedi nodi saith amcan llesiant sy'n cyfrannu at y Nodau Llesiant. Er mwyn parhau i ateb gofynion y Mesur Llywodraeth Leol, yr Amcanion Llesiant y cytunwyd arnynt fydd ein Hamcanion Gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd.



| Amcanion Llesiant APCAP | Sut yr ydym yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru |
|---|---|
| 1. Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. | Mae hyn yn cyfrannu at ‘Cymru Lewyrchus’ a ‘Cymru Gydnerth’ trwy roi anogaeth i ddatblygu busnesau newydd a phresennol a chynyddu nifer y swyddi gan beidio â chefnogi defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Dylai cyflogaeth gynyddol gefnogi ‘Cymru sy’n fwy cyfartal’ a ‘Cymru iachach’. |
| 2. Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol | Mae defnyddio’r dull ecosystemau’n dechneg allweddol o ran paratoi’r Asesiad Llesiant ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, o ran sicrhau ‘Cymru Gydnerth’ ac o ran paratoi unrhyw Gynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol . |
| 3. Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o’r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo’u hamgylchiadau | Mae gweithgarwch yn yr awyr agored, megis cerdded, yn gallu gwella’r teimlad o lesiant, lleihau straen a gall fod yn ysbrydoledig. Trwy hybu defnydd mwy rheolaidd o’r awyr agored boed ar drothwy drws pobl neu yn y Parc Cenedlaethol, annog gwirfoddolwyr a dileu rhwystrau i fynediad mae’r amcan hwn yn cyfrannu at greu ‘Cymru iachach’, ‘Cymru sy’n fwy cyfartal a ‘Cymru o gymunedau cydlynus. |
| 4. Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi’i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC | Bydd yr Awdurdod yn parhau i annog ystod fwy cynrychiolaidd o bobl i ymgysylltu a chwarae rhan. Bydd yn defnyddio’i Gynllun Cydraddoldeb Strategol i sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngwaith a diwylliant yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| 5. Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i’w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol | Eisoes mae llawer o gymunedau a grwpiau lleol yn ymgysylltu â’r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at ei waith o ymatebion i ymgyngoriadau i brosiectau lleol ar gyfer gwella’r amgylchedd. Trwy gynyddu maint a chwmpas yr ymwneud hwn, defnyddio dull sy’n seiliedig ar gydgynhyrchu a datblygu ein gwaith i ennyn ymgysylltiad gan gynulleidfaoedd newydd sy’n cynrychioli cymdeithas byddwn yn ychwanegu at greu ‘Cymru o gymunedau cydlynus’. |
| 6. Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal. | Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog o ran y celfyddydau, treftadaeth ac iaith. Caiff hyn ei gydnabod fel rhan o unigrywiaeth yr ardal gan gyfrannu at greu ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’. |
| 7. Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. | Trwy fynd ati’n barhaus i leihau ein hôl troed carbon, cefnogi’r agenda twf gwyrdd trwy brosiectau’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac addysgu pobl am ddibenion arbennig y Parc mae’r Awdurdod yn cyfrannu at greu ‘Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang’. Mae’r Amcanion Llesiant yn cefnogi Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| | |
|---|---|
| | trwy ddiogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, ein cefnogaeth i'r economi leol a thrwy'r addysg a ddarperir gennym. |


## Cyllid

Caiff gwariant refeniw net yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 ei bennu gan Lywodraeth Cymru, trwy ddyrannu'r Grant Parc Cenedlaethol blynyddol ac ardoll o £3,939,000. Mae hon yn gyllideb ddigyfnewid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; fodd bynnag bu toriad o 5% yng nghyllideb yr awdurdod yn 2016/17. Caiff incwm wedi'i greu'n lleol o oddeutu £2,014,000 ei godi o ffioedd cynllunio, ffioedd mynediad, gwerthiant nwyddau, meysydd parcio a.y.b. Mae dadansoddiad manylach o'r gyllideb gan ddefnyddio codau CIPFA ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn Atodiad A.


### Rhagolygon Cyllideb 2017/18

| Income | |
|---|---|
| | **£000's** |
| Grant Llywodraeth Cymru | 2955 |
| Ardoll awdurdod lleol | 985 |
| Incwm a gynhyrchir yn lleol a Throsglwyddiad o Gronfeydd | 2014 |
| **Cyfanswm** | 5954 |

| Gwariant | | |
|---|---|---|
| **Amcan Llesiant APCAP** | **Adnoddau (£000's)** | **%** |
| Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. | £1,297 | 22 |
| Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol | £1,029 | 17 |
| Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau | £744 | 13 |
| Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC | £622 | 10 |
| Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol | £628 | 11 |
| Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal. | £1,029 | 17 |
| Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. | £605 | 10 |
| **Cyfanswm** | **£5,954** | **100** |




Mae symiau a % y dosbarthiad o 2016/17 wedi cael eu hailddosrannu ar gyfer 2017/18 yn dilyn adolygiad o gyfraniadau gwasanaethau i wahanol Nodau Llesiant.



## Amcan Llesiant 1: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

### Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'n ffordd o weithio

#### Hirdymor

- Fel awdurdod cynllunio mae ein Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r polisi cynllunio ar gyfer y Parc dros orwel o ddeng mlynedd. Ym mis Gorffennaf 2016 cafodd Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd yr Awdurdod (2015-2031) ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfranogiad ar y cam adneuo'n digwydd rhwng mis Mehefin/Gorffennaf 2016 a mis Chwefror 2017.
- Trwy Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru rydym yn asesu effaith penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod ar amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol ehangach gan gynnwys datblygu economaidd a datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel.

#### Atal

- Trwy ymwneud â Siarter Awyr Agored Sir Benfro rydym yn rhoi cymorth i hyrwyddo hamdden gynaliadwy, gan daro cydbwysedd rhwng anghenion yr amgylchedd ar y naill law a gweithgareddau antur a hamdden ar y llaw arall trwy ganllawiau a chodau gwirfoddol.
- Mae economi Sir Benfro yn elwa o gynnal digwyddiadau hamdden awyr agored megis 'Ironman Wales'. Fodd bynnag mae angen cynnal digwyddiadau mewn modd cynaliadwy ac i roi cymorth yn hyn o beth rydym wedi datblygu canllawiau ynghylch digwyddiadau cynaliadwy ar gyfer digwyddiadau awyr agored egnïol.

#### Integreiddio

- Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020, Partneriaeth ar gyfer Twf, yn nodi'r weledigaeth i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant weithio mewn partneriaeth i gynyddu gwariant gan ymwelwyr â Chymru.
- Rydym yn rhan o Bartneriaeth Cyrchfan Sir Benfro. Y bartneriaeth hon sy'n gyfrifol am Gynllun Rheoli Cyrchfan 2013-18 a'i nod yw gwella'r arlwy dwristiaeth a chefnogi twristiaeth leol.
- Mae strwythurau gweithio mewn partneriaeth yn mynd trwy gyfnod o newid yn Sir Benfro. Wrth edrych tua'r dyfodol mae'n bwysig ein bod yn cyfranogi mewn

cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth ym maes twristiaeth a’n bod yn ymatebol i fodelau darparu newydd yn y Sir.

## Cydweithio

- Trwy’r cynllun ‘Sgiliau ar Waith’ mewn partneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Torfaen rydym wedi darparu cymwysterau a phrofiad ymarferol mewn rheoli cefn gwlad ar gyfer pum hyfforddai yn flynyddol.
- Rydym yn dymuno ymgysylltu â darparwyr twristiaeth i hyrwyddo’r Parc Cenedlaethol a’i nodweddion arbennig trwy ddatblygu cynllun llysgenhadon twristiaeth, ein Cynllun Park Wise a thrwy ddarparu hyfforddiant a gweithdai ar gyfer ‘staff blaen tŷ’.
- Rydym yn gweithio gyda’r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru i hyrwyddo awyr y nos fel ased twristaidd trwy’r fenter Awyr Dywyll.

## Cynnwys

- Fe gynhalion ni arolwg o ddefnyddwyr llwybrau gwledig (rhwng mis Awst 2015 a mis Gorffennaf 2016) i roi arweiniad o ran datblygu a rheoli Llwybr yr Arfordir a hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Cofnodwyd lefelau bodlonrwydd uchel trwy’r arolwg gan ddangos yr ansawdd a ddisgwylir ac a gyflawnir. Trwy waith hollbwysig y Wardeniaid rydym yn cynnal mynediad at y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus, gan sicrhau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol, gan eu hannog i ddychwelyd a hyrwyddo’r Parc Cenedlaethol mewn modd cadarnhaol i eraill.
- Rydym yn cynnig cyfleoedd economaidd i fusnesau lleol trwy ddarparu consesiynau, cyfleoedd i gynnal stondinau mewn ffeiriau tymhorol a gynhelir yn Oriel Y Parc, Castell Caeriw a Chastell Henllys a’r cynllun artistiaid preswyl.
- Mae twf mewn ymgysylltiad trwy sianeli’r cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig tudalen Facebook yr Awdurdod wedi ei gwneud yn bosibl ymgysylltu â grŵp ehangach o bobl. Mae lansio Google Trekker ar gyfer Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cynnig cyfle newydd cyffrous ar gyfer ymgysylltu ar-lein.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 1** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig gan gynnwys polisïau datblygu economaidd cynaliadwy. | ✔ | ✔ | ✓ | ✓ | ✔ | ✓ | ✔ |
| Gweithredu polisïau cynllunio i gefnogi economi gynaliadwy a chyfrannu at amcanion cynaliadwyedd cynllunio Llywodraeth Cymru. | ✔ | ✔ | ✓ | ✓ | ✔ | ✓ | ✔ |
| Darparu hyfforddiant ar gyfer darparwyr twristiaeth i'w galluogi i ddod yn eiriolwyr ar ran y Parc. | ✔ | ✔ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo nodweddion arbennig y Parc fel cyrchfan i dwristiaid, gan weithio gyda phartneriaid i wella a chefnogi'r arlwy dwristiaeth leol. | ✔ | ✔ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Cynnal Llwybr Arfordir Penfro gan sicrhau bod y lefel uchel o fodlonrwydd ar y profiad i ymwelwyr yn parhau. | ✔ | | ✔ | ✔ | | | ✔ |
| Hyrwyddo hamdden gynaliadwy, trwy'r prosiect Cysylltiadau Naturiol a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff a grwpiau defnyddwyr ym maes hamdden. | ✔ | ✔ | | | ✓ | | ✔ |
| Cefnogi busnesau lleol a hybu datblygiad sgiliau. | ✔ | ✓ | | ✓ | ✔ | ✓ | ✔ |

✔ mae hyn yn dynodi cyfraniad cryf at y nod llesiant hwn

✓ mae hyn yn dynodi cyfraniad anuniongyrchol neu gyfyngedig at y nod llesiant hwn

## Parcmyn Castell Martin – Dull Cyfannol o Reoli Hamdden

**Cyflawniadau:**

- ✓ Mae trefniadau mynediad ar gyfer ogofawyr wedi cael eu datblygu am y tro cyntaf gyda phrotocol y cytunwyd arno ar gyfer gwarchod ac archwilio ogofâu.
- ✓ Mae cyfyngiadau gwirfoddol tymhorol ar ddringo'n cael eu cytuno a'u gweithredu'n llwyddiannus bob blwyddyn i warchod adar sy'n nythu ar glogwyni. Mae mynediad trwy gydol y flwyddyn at Range West yng Nghastell Martin wedi cael ei negodi ar gyfer dringwyr.
- ✓ Mae gwaith wedi cael ei wneud gyda Chyngor Mynydda Prydain i wella/gwaredu stanciau belai ar bennau clogwyni.

"Mae gennym un darn o dir i hyfforddi milwyr hynod fedrus arno, i'w ddefnyddio ar gyfer hamdden, bod yn hygyrch a chael ei ddefnyddio gan nifer o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid?"

Rheolir partneriaeth Parcmyn Castell Martin gan yr Awdurdod ac fe'i rhan-ariennir gan Gronfa Stiwardiaeth Cadwraeth y Weinyddiaeth Amddiffyn a Phartneriaeth Cydweithio gyda CNC.

### Mesur Cynnydd

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cadw at amserlen cytundeb cyflawni ein Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gyda'r Cynllun Adneuo'n cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018. | Gwyriad o ran paratoi'r CDLl o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi'i fabwysiadu yn 2020 a hwnnw'n cynnwys polisïau datblygu economaidd cynaliadwy. |
| Cynnal neu wella ein perfformiad mewn perthynas â dangosyddion cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd ac effeithlonrwydd. | % y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd<br>% y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau sy'n ofynnol<br>Yr amser mewn dyddiau a gymer ar gyfartaledd i benderfynu ynghylch yr holl geisiadau<br>% y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion<br>% yr apeliadau a wrthodwyd | Gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol sy'n helpu i hwyluso economi gynaliadwy ac yn cyfrannu at gyflawni amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ceisiadau am gostau mewn apêl dan Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd | |
| Dangos ein cyfraniad i gynaliadwyedd economaidd trwy berfformiad mewn perthynas â dangosyddion datblygu cynaliadwy perthnasol gan Lywodraeth Cymru. | SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) y rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio mewn perthynas ag ef ar gyfer datblygiadau economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu yn ystod y flwyddyn.<br>SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn. | |
| Datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer darparwyr twristiaeth i'w galluogi i ddod yn hyrwyddwyr ar ran y parc. | # y sesiynau hyfforddi Parkwise a sesiynau hyfforddi eraill wedi'u darparu ar gyfer darparwyr twristiaeth yn y flwyddyn hyd yma. | Mae darparwyr twristiaeth yn llysgenhadon ar ran y Parc gan hyrwyddo'i nodweddion arbennig i dwristiaid a'r cyhoedd. |
| Cyfranogi mewn cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth ym maes Twristiaeth wrth iddynt ddatblygu yn Sir Benfro. | Diweddariadau ar gynnydd o ran cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth ym maes twristiaeth yn Sir Benfro. | Mae APCAP yn bartner allweddol ac yn ymaddasol i fodelau newydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ym maes twristiaeth yn y sir ac i fodelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau. Caiff y digwyddiad Iron Man Wales ei gynnal yn llwyddiannus yn y sir yn 2017 a'r tu hwnt. Ceir lefelau uwch o ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghylch testunau sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol. Mae pobl yn defnyddio offer ar-lein a ddarperir gan yr Awdurdod ac yn cael bydd ohonynt. Mae nifer uwch o bobl yn achub ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r nodweddion arbennig yn y |
| Parhau i roi cymorth ariannol i Iron Man Wales. | Cymeradwyo cymorth gan APCAP i Iron Man Wales. Adroddiad cynnydd ar Iron Man 2017. | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd twristaidd a chyfleoedd ehangach yn y parc trwy Coast to Coast a chynyddu nifer y bobl sy'n ymgysylltu â ni ar-lein trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan, gan gysylltu â Google Trekker, Web Walks a'r wefan Mwynhau Sir | # y dilynwyr ar y Cyfryngau Cymdeithasol<br># yr ymweliadau â'r wefan<br># sy'n mynychu Digwyddiadau a Gweithgareddau (Am faint o amser y cawsant eu hysbysebu yn Coast to Coast) | |

| | | |
|---|---|---|
| Benfro. | | Parc gan gynnwys awyr y nos, Llwybr Arfordir Sir Benfro a lleoliadau hanesyddol a diwylliannol sy’n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod. Mae Coast to Coast yn ased a werthfawrogir o ran hyrwyddo twristiaeth a’r economi leol. |
| Parhau i gyflawni rôl gysylltu o ran defnyddio’r Parc Cenedlaethol fel lleoliad ffilmio. | # yr ymholiadau ynghylch ffilmio | |
| Darparu profiad ardderchog ar gyfer ymwelwyr yng Nghastell Henllys, Caeriw, OYP a Threfdraeth. | # yr ymwelwyr<br>Bodlonrwydd Cwsmeriaid – Adborth Cwsmeriaid ar Trip Advisor (CH, Caeriw, OYP) / Dulliau ansoddol i gasglu gwybodaeth am brofiadau ymwelwyr | |
| Hybu mwynhad a gwerthfawrogiad o awyr y nos yn y parc trwy hyfforddi staff i ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau awyr dywyll. | # y gweithgareddau a chyfranogwyr – Digwyddiadau awyr dywyll a gynhelir gan yr Awdurdod | |
| Cwblhau’r holl waith cynnal a chadw sy’n ofynnol gan gynnal y safon ar rwydweithiau presennol a monitro cwynion gan y cyhoedd ynghylch safonau, i’n helpu i adnabod goblygiadau o ran adnoddau a darparu ar gyfer bodlonrwydd ymwelwyr yn y dyfodol. | Adborth Cwsmeriaid ar Trip Adviso– Llwybr Arfordir Sir Benfro<br>% yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy’n agored ac yn hygyrch gan gyrraedd y safon ansawdd<br>Cwynion ynghylch safonau<br>Safonau Ansawdd ar gyfer y Llwybr Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru – Wyneb ac Amgylchoedd a Dodrefn a Strwythurau Eraill | Lefel uchel barhaus o ran disgwyliadau ymwelwyr o Lwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a llwybrau mewndirol ac o ran bodlonrwydd ymwelwyr ar y rhain. Profiad cadarnhaol i ymwelwyr sy’n eu hannog i ddychwelyd. |
| Cyflawni’r prosiect Cysylltiadau Naturiol a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gyda darparwyr Twristiaeth. | # y busnesau twristiaeth sydd wedi’u cynnwys trwy’r prosiect | Nifer cynyddol o weithredwyr Twristiaeth yn y Parc yn mabwysiadu arferion rheoli tir cynaliadwy. Mae digwyddiadau awyr agored a drefnir yn y sir yn cael eu cynnal mewn ffordd gynaliadwy.<br>Mae grwpiau defnyddwyr hamdden yn gweithio gyda’r parc, gyda mynediad at gyfleoedd hamdden yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy. |
| Hyrwyddo defnydd o’r Canllawiau ynghylch Digwyddiadau Cynaliadwy ar gyfer digwyddiadau awyr agored egnïol trwy Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro, cyrff a darparwyr hamdden. | Enghreifftiau o achosion lle defnyddiwyd y canllawiau ynghylch digwyddiadau cynaliadwy. | |
| Trwy ymwneud gan | Enghreifftiau o gytundebau | |

| | | |
|---|---|---|
| Barcmyn â grwpiau defnyddwyr hamdden, mae tirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill yn negodi cytundebau a phenderfyniadau i hybu mynediad a hamdden sy'n gynaliadwy. | a gyflawnwyd neu faterion a ddatryswyd. | |
| Gwneud gwaith ymgysylltu gyda grwpiau a chyfranogwyr hamdden i fwydo i mewn i'r broses o ddatblygu Cynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol | Diweddariad ar waith ymgysylltu a wnaed gyda grwpiau hamdden | |
| Cefnogi busnesau bach lleol trwy gyfleoedd i gynnal stondinau mewn lleoliadau, cyfleoedd i artistiaid a gwneuthurwyr crefftau, consesiynau a cheisio cynyddu'r swm yr ydym yn ei gaffael yn lleol lle y bo'n bosibl. | # y busnesau sy'n cyfranogi mewn ffeiriau a digwyddiadau lleol yn OYP, Caeriw a Chastell Henllys<br># yr Artistiaid a Gwneuthurwyr Crefftau a gefnogwyd trwy'r Canolfannau<br># y busnesau a gefnogwyd trwy gonsesiynau<br>% o wariant yr Awdurdod a wariwyd yn lleol<br>% yr anfonebau a dalwyd ar amser | Mae busnesau lleol yn elwa o ddarparu consesiynau ac o'r ffaith bod yr Awdurdod yn caffael yn lleol lle y bo'n bosibl. Mae busnesau, artistiaid a gwneuthurwyr crefftau lleol yn elwa o ddarparu stondinau a chyfleoedd eraill a ddarperir gan ganolfannau. Mae 3ydd diben y parc yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth gan alluogi'r Awdurdod i gyfrannu ymhellach at ddatblygu economi leol gynaliadwy. Mae hyfforddeion yn y rhaglen Sgiliau ar Waith yn dal i ddod o hyd i gyflogaeth yn dilyn cwblhau'r cynllun. |
| Hyrwyddwr ar gyfer 3ydd diben y Parciau Cenedlaethol o ran datblygu economaidd cynaliadwy i gael ei gydnabod mewn deddfwriaeth | Adroddiadau cynnydd | |
| Parhau i gefnogi Hyfforddeion trwy'r rhaglen Sgiliau ar Waith. | % yr hyfforddeion mewn cyflogaeth/addysg bellach yn dilyn cwblhau'r rhaglen Sgiliau ar Waith | |

**Adnoddau a Ddyrannwyd I'r Amcan hwn: £1,297,000**

## Amcan Llesiant 2: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.

**Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi’u sefydlu fel rhan annatod o’n ffordd o weithio**

**Hirdymor**

- Mae Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol 2015-19 yn nodi gweledigaeth ar gyfer yr ardal yn 2050, ac mae’r cynllun hirdymor hwn yn rhoi arweiniad o ran ein dull o ymdrin ag ecosystemau yn y Parc. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd arnom fel corff cyhoeddus i ‘geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth’ ac i ‘hybu cydnerthedd ecosystemau’.
- Mae dogfen CNC, Cyflwyno Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, yn nodi cysylltedd fel elfen greiddiol o ecosystemau cydnerth. Mae cysylltedd yn hanfodol i gyflawni diben cadwraeth y Parc Cenedlaethol. Mae ystyried y potensial ar gyfer cysylltedd wedi’i gynnwys o fewn y rhestr wirio yr ydym yn ei defnyddio wrth ystyried safleoedd cadwraeth newydd.
- Mae penderfyniadau cynllunio a wneir yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yn helpu i warchod ecosystemau yn y tymor hir, gan sicrhau nad yw datblygu’n arwain at effeithiau niweidiol anwrthdroadwy ar yr amgylchedd naturiol. Trwy ein proses ar gyfer monitro’r Cynllun Datblygu Lleol rydym yn monitro cymeradwyaethau sy’n groes i Bolisi Strategaeth 8 – Nodweddion Arbennig. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd a hwnnw’n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal fel rhan o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd yr Awdurdod.

**Atal**

- Mae’r Adroddiad “Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro” (2016) yn awgrymu bod bioamrywiaeth sy’n gysylltiedig ag amaethyddiaeth megis Adar Ffermdir, Gweundir ac ymylon caeau âr yn dirywio. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn amlygu’r ffaith bod y cynefinoedd a’r rhywogaethau hynny lle mae ymdrech sylweddol wedi cael ei wneud yn sefydlog neu’n gwella. ‘Gwarchod y Parc’ yw ein prif gynllun ar gyfer gweithio gyda thirfeddianwyr preifat yn y Parc Cenedlaethol. Mae wedi profi’n erfyn grymus o ran cyflawni rheolaeth ymarferol ar dir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Mae safleoedd cadwraeth yn y rhaglen waith weithredol yn cael ymweliadau archwilio ffurfiol sy’n cael rhoi ar glawr a’u cofnodi ar ffeil. Yn ystod ymweliadau ffurfiol caiff categori Coch, Ambr neu Wyrdd ei aseinio i safleoedd.

- Mae prosiectau penodol yn ein galluogi i wneud gwaith ataliol mewn ardaloedd penodol. Nod y prosiect Pwyth mewn Pryd a ariannwyd â Grant Datblygu Cynaliadwy oedd gwaredu Clymog Japan, Jac y Neidiwr a Rhododendron Ponticum o ddalgylch Cwm Gwaun. Yn dilyn llwyddiant y prosiect hwn mae'r Awdurdod yn chwilio am ffyrdd o barhau â chymorth i'r math hwn o waith ataliol.
- Fel a amlygwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016, mae coetiroedd yn hanfodol i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru mewn modd cynaliadwy. Mae ein swyddog coed a thirwedd yn gweithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau bod coetiroedd a choed a warchodir yn cael eu rheoli mewn modd priodol.

**Integreiddio**

- Rydym yn rhan o Rwydwaith Pori Sir Benfro, sy'n un o ddau rwydwaith pori lleol yn unig yng Nghymru. Mae tanbori neu bori amhriodol yn rheswm allweddol dros gyflwr anffafriol cynefinoedd ar draws y rhwydwaith safleoedd dynodedig a hefyd cefn gwlad ehangach. Yn 2015/16 fe wnaeth Rhwydwaith Pori Sir Benfro gefnogi pori ar 42 o safleoedd sy'n gorchuddio cyfanswm o 335ha.
- Rydym yn bartner allweddol yn Fforwm Arfordirol Sir Benfro, y mae ei waith wedi cynnwys creu Cod Morol. Cafodd y model hwn ei amlygu yn yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig fel model llwyddiannus y dylid ei gymhwyso'n fwy eang ar draws ardaloedd arfordirol y Dirwedd Genedlaethol.

**Cydweithio**

- Mae staff yr Awdurdod yn parhau i gyflawni rôl weithredol yng ngweithgareddau Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro. Nod y grŵp yw lleihau'r achosion o danau gwyllt ac effaith y tanau hynny trwy addysg a rheoli tir yn gynaliadwy. Mae tanau gwyllt yn cael effaith ddinistriol ar fywyd gwyllt yn ogystal â chreu costau i wasanaethau cyhoeddus. Ym mis Gorffennaf 2015, cofnododd y Gwasanaeth Tân ac Achub ostyngiad o 33% yn y galwadau allan i danau gwyllt ers i'r grŵp ddechrau ei waith yn 2013.
- Mae'r Parc yn ymfalchïo yn y perthnasoedd cadarnhaol sydd wedi cael eu meithrin gyda thirfeddianwyr ac unigolion eraill trwy'r timau Wardeniaid a Pharcmyn ac aelodau eraill o staff sy'n helpu i hwyluso gwaith yr awdurdod. Er mwyn galluogi gwaith cadwraeth effeithiol i ddigwydd mae'n rhaid i staff gydweithio gyda thirfeddianwyr. Roedd swm y tir a reolwyd ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr preifat yn 2015/16 yn 966.26ha, y mae 400ha ohono dan gytundeb rheoli ffurfiol.

**Cynnwys**

- Trwy'r prosiect Pwyth mewn Pryd mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu bron i 140 o ddiwrnodau person ac wedi bod yn hanfodol i reoli Jac y Neidiwr.
- Bu pedwar warden gwirfoddol yn ardal y gogledd a oedd yn awyddus i chwarae mwy o ran mewn gwaith monitro biolegol yn samplu cwadradau ar rywogaethau dolydd yn nôl brydferth yr Awdurdod yn Sychpant. Mae'r 40 sampl a gymerwyd o gwadradau wedi creu sylfaen ar gyfer ymweliadau monitro yn y dyfodol.

| **Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 2** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Parhau ag arferion rheoli tir effeithiol trwy reoli ein heiddo ein hunain a gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr. | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda gwirfoddolwyr ar waith cadwraeth gyda ffocws ar gydnabod, cadw, datblygu a chynyddu cyfraniad wardeniaid gwirfoddol a gwirfoddolwyr crefftus. | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Adeiladu ar lwyddiant Gwaith Pwyth mewn Pryd trwy waith ataliol parhaus ar Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol gan weithio gyda grwpiau cymunedol, busnesau a gwirfoddolwyr. | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gweithredu polisi cynllunio i sicrhau datblygiad cynaliadwy adnoddau naturiol a bod nodweddion arbennig y Parc yn cael eu gwarchod a'u gwella. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Parhau i reoli gwaith i goed a warchodir yn y Parc Cenedlaethol ac i weithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau bod coetiroedd a choed a warchodir yn cael eu rheoli mewn modd priodol. | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Parhau i ymgysylltu â rhwydweithiau a sefydliadau partneriaeth, gan adeiladu ar lwyddiannau blaenorol gan gynnwys Fforwm Arfordir Penfro. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyno cynigion am gyllid i wneud gwaith cadwraeth. | | ✓ | | | ✓ | | ✓ |

**Cyn ac ar ôl – Pwyth mewn Pryd**



## Mesur Cynnydd

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Parhau â gweithgareddau rheoli tir gan amcanu at gynnal statws gwyrdd ac ambr ar gyfer yr ardaloedd hynny a gaiff eu monitro yn y cyfnod hwn. | % y safleoedd a reolir gan yr APC sydd mewn cyflwr ecolegol da a/neu mewn cyflwr sy'n gwella ac sy'n cael eu rheoli yn unol â'u cynllun rheoli (dosbarthiad ambr/gwyrdd) | Mae'r fioamrywiaeth a'r tir a reolir gan yr APC ac mewn partneriaeth gyda'r APC yn gwella neu mae eu safon yn cael ei chynnal ac maent yn cyfrannu at gysylltedd. |
| Gweithio gyda wardeniaid gwirfoddol a gwirfoddolwyr crefftus ar gadwraeth er mwyn cynyddu eu heffaith i'r eithaf. Darparu diwrnodau astudio ar gyfer wardeniaid gwirfoddol a datblygu cynllun hyrwyddo/ gwobrwyo gwirfoddolwyr i ddathlu a chydnabod eu cyfraniad. | # y wardeniaid gwirfoddol<br># y diwrnodau gwirfoddolwyr – Gwaith Cadwraeth<br>% y presenoldeb mewn diwrnodau astudio ar gyfer Wardeniaid Gwirfoddol<br>Datblygiad cynllun hyrwyddo/ gwobrwyo gwirfoddolwyr | Mae wardeniaid gwirfoddol a gwirfoddolwyr crefftus yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i helpu i wella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi gan y sefydliad ac mae eu cyfraniad yn cael ei gydnabod. |
| Datblygu ein gwaith ar Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol, gan chwilio am gyllid pellach a gweithio gyda grwpiau cymunedol, busnesau a gwirfoddolwyr ar | # y diwrnodau gwirfoddolwyr a dreuliwyd yn gwneud gwaith ar Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol<br># y grwpiau cymunedol sy'n chwarae rhan<br># y Rhywogaethau | Trwy ymgysylltiad parhaus â thirfeddianwyr a chymunedau mae'r gallu i dynnu Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn y tarddiad ac i ddarparu'r driniaeth fynych |

| | | |
|---|---|---|
| weithgareddau sy'n ymwneud â rhywogaethau goresgynnol. | Anfrodorol Goresgynnol a dynnwyd yn y tarddiad/ chwistrellwyd (ha) | angenrheidiol er mwyn atal ailheintiad yn cael ei feithrin. |
| Gweithredu polisi cynllunio i sicrhau datblygiad cynaliadwy adnoddau naturiol a bod nodweddion arbennig y parc yn cael eu gwarchod a'u gwella. | Nifer y datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau gwarchod y dirwedd (Polisi 8 yn y CDLl) – Adroddiad Monitro'r CDLl | Bydd nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu gwarchod a'u gwella ac rydym yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad cynaliadwy Adnoddau Naturiol. |
| Parhau i reoli gwaith i goed a warchodir yn y Parc Cenedlaethol ac i weithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau bod coetiroedd a choed a warchodir yn cael eu rheoli mewn modd priodol. | # y ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd yn eu cylch<br># y gorchmynion diogelu coed newydd a wnaed | Mae coed a choetiroedd a warchodir yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol. |
| Ymgysylltu â rhwydweithiau partneriaeth a sefydliadau i gynnal dull strategol a chydlynus o wella iechyd Ecosystem y Parc Cenedlaethol. | Diweddariad ar yr ymwneud â rhwydweithiau partneriaeth. | Mae'r Awdurdod yn rhan o bartneriaethau effeithiol sy'n cyflawni camau gweithredu sy'n dwyn budd i iechyd Ecosystem y Parc Cenedlaethol. |
| Cyflwyno cynigion am gyllid lle cyfyd cyfleoedd i wneud gwaith cadwraeth i adeiladu ar waith prosiectau presennol a datblygu prosiectau newydd. | Cyflwyno Cynigion am Gyllid/ Canlyniadau Cynigion am Gyllid | Mae'r Parc wedi sicrhau cyllid grant ar gyfer gwaith pellach ym maes cadwraeth a gwella. |

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn: £1,229,000**

## Amcan Llesiant 3: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o’r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo’u hamgylchiadau

**Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi’u sefydlu fel rhan annatod o’n ffordd o weithio**

**Hirdymor**

- Mae ein gwaith ar iechyd a llesiant yn cael ei dywys gan y datganiad safbwynt a’r camau gweithredu blaenoriaeth yn y ddogfen Parciau Cenedlaethol Cymru: Gyda’n Gilydd ar gyfer Iechyd a Llesiant. Mae’r 3 cham gweithredu blaenoriaeth yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, datblygu polisi ac arfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth a chynyddu i’r eithaf y cyfleoedd i bobl gael mynediad at y cyfleoedd o ran iechyd a llesiant yn y Parciau Cenedlaethol.
- Mae ennyn ymgysylltiad plant a phobl ifanc â’r awyr agored yn gallu dwyn manteision hirdymor. Cafodd partneriaeth ysgolion awyr agored Sir Benfro, sy’n cael ei chadeirio gan y Parc ar hyn o bryd, ei sefydlu i hyrwyddo dysgu awyr agored yn Sir Benfro. Yn 2016 cafodd y bartneriaeth ysgolion awyr agored gyllid ar gyfer Cydgysylltydd Ysgolion Awyr Agored i ddatblygu gwaith y bartneriaeth gydag ysgolion ymhellach gyda’r nod o annog mwy o ysgolion i gynyddu’r amser dysgu a dreulir mewn lleoliadau awyr agored. Mae’r prosiect wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol a derbyniad ardderchog gan ysgolion.

**Atal**

- Menter iechyd a llesiant a lansiwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2011 yw Walkability, sy’n cynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc Cenedlaethol ac o’i amgylch. Mae gan y mwyafrif o gyfranogwyr risg mwy o afiechyd oherwydd eu hamgylchiadau neu gyflyrau iechyd presennol, gyda llawer wedi’u hatgyfeirio at y prosiect trwy eu clinigwyr dan y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.
- Mae Parciau Cenedlaethol yn ‘asedau iechyd’ ac yn ‘ffatrïoedd llesiant’ yn yr ystyr eu bod yn cynnig mynediad at adnoddau i alluogi unigolion a chymunedau i gynnal eu hiechyd a’u llesiant. Ein hased iechyd allweddol yw llwybrau troed y Parc. Mae dros 80% o’r llwybrau troed yn y Parc Cenedlaethol yn agored ac yn cael eu cynnal i safon. Mae dros 200 o deithiau Cylchol wedi cael eu creu i helpu i hyrwyddo cerdded gyda mapiau y gellir eu lawrlwytho ar ein gwefan. Hefyd wedi’u rhestru mae detholiad o deithiau cerdded byr, crwydrau ysgafn, a theithiau sy’n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac yn hygyrch.

**Integreiddio**

- Fe sefydlon ni Rwydwaith Gwasanaeth Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru a ni yw ei sefydliad arweiniol. Mae'r rhwydwaith hwn yn hwyluso cyfleoedd i gomisiynwyr ac ymarferwyr iechyd ddod ynghyd i wella dealltwriaeth ac adnabod cyfleoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd naturiol.
- Fe wnaeth Partneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro ddwyn ynghyd yr holl asiantaethau sy'n gyfrifol am hyrwyddo a rheoli datblygiadau cerdded, beicio, bysiau a threnau yn Sir Benfro. Trwy'r bartneriaeth hon rydym yn cyfrannu cymorth ariannol ar gyfer y gwasanaeth bws arfordirol sy'n helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd cerdded ledled y Parc.

**Cydweithio**

- Roedd datganiad Rhaglen Mesur Plant Cymru: 2016 yn dangos bod 30.2% o'r Plant 4-5 oed yn Sir Benfro dros eu pwysau neu'n ordew, sy'n uwch na'r cyfartaledd o 26.2% ar gyfer Cymru. Trwy weithio gydag ysgolion rydym yn gallu darparu mynediad at yr awyr agored a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ar gyfer plant. Hyd yma yn 2016/17 rydym wedi gweithio gyda 59% o'r ysgolion cynradd yn Sir Benfro.
- Gall cyfleoedd i wirfoddoli a phrosiectau cymunedol ledled yr Awdurdod helpu i atal arwahanrwydd cymdeithasol a gwella llesiant. Rydym yn cynnig ystod o gyfleoedd i wirfoddoli a'r rheiny'n cael eu hwyluso gan ein Parcmyn, Parcmyn Darganfod ac yn ein canolfannau gan gynnwys cyfleoedd i 'ofalu am yr amgylchedd'.

**Cynnwys**

- Dangosodd Arolwg Iechyd Cymru yn 2014/15 main dim ond 34% o'r oedolion yn Sir Benfro oedd wedi cwrdd â'r canllawiau ar gyfer ymarfer corff/gweithgarwch corfforol yn yr wythnos flaenorol. Mae'r fenter Dewch i Gerdded Sir Benfro yn amcanu at annog pobl o bob oed a gallu i gymryd y camau cyntaf tuag at wneud cerdded yn rhan o'u trefn ddyddiol. Ym mis Medi cynhaliwyd ystod o deithiau tywys i lansio'r fenter ac mae gweithdai'n cael eu cynnal gyda grwpiau cymunedol i'w cynnwys.
- Roedd yr adborth gan gyfranogwyr yn y Fenter Walkability: Adroddiad Gwerthuso 2015/16 yn dangos pwysigrwydd yr agwedd gymdeithasol ar gerdded ar gyfer llesiant a'r angen i feithrin hyder i barhau i gerdded. Dangosodd y prosiect Eich Parc ei bod yn bosibl meithrin gallu sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl i ddatblygu eu defnydd rheolaidd hwy eu hunain o'r awyr agored. Rydym yn ymateb i hyn trwy'r rhaglen hyfforddi arweinwyr teithiau, gan weithio gyda sefydliadau partner i'w cynorthwyo i sefydlu grwpiau cerdded hunangynhaliol a arweinir gan eu staff/gwirfoddolwyr hwy eu hunain.

| Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 3 | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trwy'r Cydgysylltydd Ysgolion Awyr Agored, darparu sesiynau dysgu a hyfforddi yn yr awyr agored i annog ysgolion i dreulio mwy o'u hamser dysgu mewn lleoliadau awyr agored. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu perthnasoedd gweithio agosach gyda gweithwyr iechyd proffesiynol trwy Rwydwaith Gwasanaethau Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i gynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn ac o amgylch y Parc trwy'r prosiect 'Walkability', gan ymgysylltu â grwpiau a darparu cyfleoedd pan fo cleifion yn cael eu hatgyfeirio i wneud ymarfer corff. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Darparu rhaglen hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded a hyfforddiant arall mewn arweinyddiaeth awyr agored ar gyfer sefydliadau partner i'w cynorthwyo i sefydlu grwpiau cerdded hunangynhaliol a arweinir gan eu staff/gwirfoddolwyr eu hunain. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Hyrwyddo cyfleoedd i gerdded yn y Parc Cenedlaethol i gymunedau lleol trwy godi ymwybyddiaeth o deithiau cerdded cylchol, Menter Dewch i Gerdded Sir Benfro, creu 'grwpiau cyfeillion cerdded' a theithiau cerdded cymunedol dan arweiniad Parcmyn. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Ymgysylltu â phlant yn Sir Benfro a'r tu hwnt trwy raglen addysg a gweithgareddau i ddarparu mynediad at yr awyr agored a chyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Datblygu a darparu cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cymunedol hygyrch sy'n atal arwahanrwydd/yn hybu llesiant. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal cymorth ariannol ar gyfer y gwasanaethau bysiau arfordirol, ar yr amod bod partneriaid eraill yn parhau i ariannu'r gwasanaeth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adnabod cyfleoedd i gefnogi gwaith sefydliadau "Croeso" yn Sir Benfro wrth iddynt groesawu ffoaduriaid i'r sir. | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

> **“Mae’r fenter Walkability yn helpu pobl i fynd allan a defnyddio’r Parc (Cenedlaethol) i wella ar ôl salwch neu’n syml i wella eu ffitrwydd, ni waeth o ba lefel y maent yn dechrau.”**
>
> Paul Casson, y Cydgysylltydd Walkability

**Mesur Cynnydd**

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Darparu sesiynau dysgu yn yr awyr agored a sesiynau hyfforddi ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i athrawon trwy’r Cydgysylltydd Ysgolion Awyr Agored. | # y cyfranogwyr mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored<br># y sesiynau hyfforddi ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i athrawon<br># yr athrawon sydd wedi’u hyfforddi mewn dysgu yn yr awyr agored | Mae gan fwy o blant fynediad at ddysgu yn yr awyr agored a’i fanteision ac mae gan nifer cynyddol o athrawon y sgiliau i ddarparu sesiynau dysgu yn yr awyr agored. |
| Gweithio’n frwd gyda Rhwydwaith Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru i fynd ati ymhellach i ddatblygu cyfleoedd i gydweithio gyda gwasanaethau iechyd a phartneriaid eraill. | Rhestr o’r camau gweithredu/canlyniadau a gyflawnwyd trwy’r Rhwydwaith | Mae ‘asedau iechyd’ y Parc yn cael eu cydnabod a’u defnyddio gan wasanaethau iechyd mewn partneriaeth gyda’r Awdurdod i gynyddu i’r eithaf y manteision o ran iechyd i’r boblogaeth leol. |
| Cynnig cyfleoedd cerdded â chymorth trwy Walkability gan gysylltu â grwpiau ac atgyfeiriadau i wneud ymarfer corff. | # y cyfranogwyr o’r Cynllun Walkability<br>Adborth gan Gyfranogwyr | Dileu rhwystrau i fynediad at gerdded. Effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant unigolion gan hefyd gynyddu hyder cyfranogwyr i fynd ar deithiau cerdded ar eu pen eu hunain, neu gyda ffrindiau a theulu neu grwpiau ehangach. |
| Darparu hyfforddiant arweinwyr teithiau cerdded a hyfforddiant arall ar gyfer arweinwyr grwpiau i helpu i sefydlu grwpiau cerdded hunangynhaliol. | # yr arweinwyr grwpiau sydd wedi’u hyfforddi trwy sesiynau hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded<br>Astudiaethau achos o grwpiau cerdded hunangynhaliol a sefydlwyd | Mae mwy o grwpiau cerdded hunangynhaliol yn gweithredu yn Sir Benfro, gan alluogi mwy o bobl sy’n wynebu rhwystrau i gerdded yn annibynnol i gael budd o gyfleoedd i gerdded. |

| | | |
|---|---|---|
| | o ganlyniad i’r hyfforddiant hwn | Potensial ar gyfer newid cadarnhaol mewn ymddygiad ac effeithiau mwy ar iechyd yn y tymor hwy. |
| Hyrwyddo teithiau cylchol sydd ar gael ar y we ac adnoddau eraill ar gyfer llwybrau troed i gymunedau yn Sir Benfro. | # y bobl sy’n defnyddio llwybrau troed (o rifyddion sefydlog)<br># y teithiau cylchol a lawrlwythwyd | Mae mwy o bobl yn Sir Benfro’n cael budd o gerdded yn ddyddiol a chyfranogi mewn gweithgarwch corfforol. |
| Chwarae rhan weithredol yn y fenter Dewch i Gerdded Sir Benfro trwy ddarparu gweithdai a chyfranogi mewn digwyddiadau. | Diweddariad ar y Fenter Dewch i Gerdded Sir Benfro | |
| Ystyried mecanweithiau i roi anogaeth i ffurfio ‘grwpiau cerdded i gyfeillion’. | Datblygu mecanweithiau i roi anogaeth i ffurfio ‘grwpiau cerdded i gyfeillion’. | |
| Parhau i ddarparu teithiau cymunedol dan arweiniad Parcmyn a gwirfoddolwyr. | # y cyfranogwyr mewn teithiau dan arweiniad parcmyn, staff canolfannau a gwirfoddolwyr yn y flwyddyn hyd yma | |
| Meithrin gallu grwpiau nad ydynt yn gysylltiedig ag ysgolion / teuluoedd trwy ddull yr arloeswyd ynddo gan Wobr John Muir i Deuluoedd/ Eich Parc i roi anogaeth ar gyfer mwy o ymgysylltu. | # y Gwobrau John Muir i Deuluoedd a roddwyd | |
| Byddwn yn darparu rhaglen addysg a gweithgareddau sy’n annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgarwch corfforol. | # y plant ysgol sy’n cymryd rhan mewn sesiynau yn yr awyr agored/ sesiynau gweithgareddau corfforol<br>% yr ysgolion yn y Parc Cenedlaethol yr ymgysylltwyd â hwy<br>% yr ysgolion yn Sir Benfro yr ymgysylltwyd â hwy | Mae mwy o blant yn cael budd o fynediad at yr awyr agored a chyfleoedd i fod yn egnïol. Cyfle i gyfrannu at newid mewn ymddygiad yn y tymor hwy. |
| Darparu cyfleoedd hygyrch i wirfoddoli a phrosiectau cymunedol sy’n atal arwahanrwydd/ yn hybu | # y Prosiectau Cymunedol<br># y diwrnodau gwirfoddolwyr<br>Astudiaethau Achos – Prosiectau Cymunedol | Mae pobl yn datblygu sgiliau, hyder ac ymdeimlad o berthyn trwy gyfleoedd i wirfoddoli gyda’r Parc. Trwy |

| | | |
|---|---|---|
| llesiant gan hefyd gynnwys pobl yng ngwaith a diben y Parc Cenedlaethol. | | gyfrannu at waith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol mae pobl yn buddsoddi yn y Parc a'i ddyfodol. |
| Cynnal cymorth ariannol ar gyfer y gwasanaethau bysiau arfordirol, ar yr amod bod partneriaid eraill yn parhau i gyllido'r gwasanaeth. | Cadarnhad o barhad y cymorth ar gyfer y gwasanaeth bysiau<br># defnyddwyr y bysiau | Mae trigolion ac ymwelwyr yn gallu parhau fynd i ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol trwy'r gwasanaeth a phrofi'r manteision cysylltiedig. |
| Adnabod cyfleoedd i gefnogi gwaith sefydliadau "Croeso" yn Sir Benfro wrth iddynt groesawu ffoaduriaid i'r sir. | Ymwneud gan ffoaduriaid â gweithgareddau a chyfleoedd yr Awdurdod – Walkability, Parcmyn Ieuenctid, Gweithgareddau | Manteision i iechyd a llesiant Ffoaduriaid yn Sir Benfro trwy fynediad at yr awyr agored, gweithgareddau cymdeithasol a chyfleoedd i wirfoddoli. |

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn: £744,000**

## Amcan Llesiant 4: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC

**Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'n ffordd o weithio**

### Hirdymor

- Caiff ein gwaith ar gydraddoldeb ei dywys gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Parc 2016-20 sy'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r amcanion yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i fynediad, cynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad, cynyddu dealltwriaeth staff ac Aelodau ac amrywiaeth y gweithlu.
- Ceir achos busnes cryf dros y manteision sy'n deillio o fod â gweithlu amrywiol. Rydym yn cydnabod yr angen i geisio cynyddu amrywiaeth yn y tymor hir. Gan ddechrau â chamau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith a gyrfa yn y Parc Cenedlaethol ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu ar hyn o bryd. Er enghraifft, trwy hyfforddeiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n hygyrch i ystod eang o bobl leol.

### Atal

- Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn ein galluogi i asesu effaith bosibl ein penderfyniadau a'n polisïau ar grwpiau gwarchodedig dan y Ddeddf a rhoi mesurau ar waith i leihau effeithiau negyddol i'r eithaf.
- Mae codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a chymorth sydd ar gael yn y gweithle yn helpu i sicrhau bod staff yn gweithio mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Mae gweithgareddau Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl wedi cael eu cynnal gyda staff ac mae gwasanaeth llinell gymorth cwnsela ar gael am ddim. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y manteision i staff a'r Awdurdod os telir cyflog teg am wneud swyddi.

### Integreiddio

- Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei oleuo gan ymgynghoriad ac arolwg amlasiantaeth a gynhaliwyd yn 2015 mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill yn Ne a Gorllewin Cymru. Fe wnaeth yr ymgynghoriad hwn adnabod pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer y cyrff cysylltiedig, sef cyfathrebu, hygyrchedd, ymwybyddiaeth staff a chydweithio.

- Rydym yn rhan o Lleisiau Sir Benfro dros Gydraddoldeb. Mae cynrychiolwyr eraill yn cynnwys yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Cyngor Sir Penfro a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae'r grŵp yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, adnabod a mynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant a rhoi'r cyfle i grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb ddylanwadu ar y broses o ddatblygu, gweithredu a monitro polisïau, cynlluniau a gwasanaethau.

## Cydweithio

- Mae gan yr Awdurdod gysylltiadau cryf â Grŵp Mynediad Sir Benfro ac mae'n cydnabod pwysigrwydd hygyrchedd i drigolion a thwristiaid. Gan weithio gyda busnesau lleol, mae cadeiriau olwyn ar gyfer traethau ar gael i'w llogi gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol er mwyn galluogi pobl i fwynhau traethau Sir Benfro tra bo sgwteri symudedd yn cael eu darparu mewn nifer o'n hatyniadau.
- Ym mis Mai 2017 mae'r "Gwobrau Mynediad Mawr" yn cael eu cynnal yn Sir Benfro ar gyfer darparwyr Twristiaeth ac rydym â'n bryd ar weithio gydag eraill i hyrwyddo Sir Benfro fel cyrchfan twristiaeth hygyrch. Mae gan yr awdurdod eisoes gyfoeth o adnoddau ar-lein y gellir eu defnyddio fel rhan o hyn. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar draethau hygyrch, teithiau ar gyfer cadeiriau olwyn, golygfannau hygyrch a chanllaw Llwybrau i Bawb.

## Cynnwys

- Mae'r Awdurdod yn rhan o gynllun mentora ar hyn o bryd i annog ystod fwy amrywiol o ddarpar aelodau o'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod strwythurau llywodraethu'n golygu bod angen dulliau eraill i annog mwy o bobl i ymgysylltu â gwaith yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn ceisio gweithio gyda'n parcmyn ieuenctid ni ein hunain, ysgolion, colegau a darparwyr gwasanaethau ieuenctid eraill yn Sir Benfro i ddatblygu model i alluogi pobl ifanc i oleuo a chyfrannu at ddatblygiad Cynllun Rheoli nesaf y Parc Cenedlaethol.
- Er mwyn helpu i hybu ymgysylltiad mae'n bwysig bod yr awdurdod yn mynd i'r afael â rhwystrau posibl i gynnwys pobl. Mae fersiwn Hawdd i'w Darllen o gytundeb cyflawni'r CDLl wedi cael ei llunio ochr yn ochr â'r ddogfen ffurfiol. Bydd yr Awdurdod yn datblygu cynllun ymgysylltu i roi cymorth gyda'r gwaith hwn.






| Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 4 | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle y bo'n ofynnol ac adrodd wrth Aelodau ar y canlyniadau. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith a gyrfa gyda'r Parciau Cenedlaethol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau a gwirfoddoli. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwella'r lefel o ddata monitro cydraddoldeb ar staff presennol a datblygu dealltwriaeth staff am y rheswm y mae angen gwybodaeth. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gweithio gydag eraill i hyrwyddo cyfleoedd Twristiaeth Hygyrch yn y Parc. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Archwilio gwasanaethau sy'n ymdrin â'r cyhoedd a gwasanaethau hyrwyddo i ganfod bylchau o ran darparu gwasanaethau a rhwystrau i grwpiau penodol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i gynnig cymorth a hyfforddiant i ystod o grwpiau a sefydliadau a fu'n rhan o'r prosiect Eich Parc a ariannwyd â chyllid y Loteri rhwng 2012 a 2016 i sicrhau eu bod yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i gael mynediad at yr awyr agored. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal cylch parhaus o godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys troseddau casineb a chysylltu â digwyddiadau ehangach ar amrywiaeth. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau â'r Cynllun Mentora i annog pobl o ystod ehangach o grwpiau i wneud cais i fod yn aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gweithio gyda'n parcmyn ieuenctid ni ein hunain ac ysgolion, colegau a darparwyr gwasanaethau ieuenctid eraill yn Sir Benfro i ddatblygu model i alluogi pobl ifanc i oleuo a chyfrannu at ddatblygiad Cynllun Rheoli nesaf y Parc Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sicrhau y telir cyflog teg am wneud swyddi, gan gynnwys parhau i dalu cyflog byw (oni bai bod hynny'n anfforddiadwy) | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Datblygu Cynllun Ymgysylltu ar gyfer yr Awdurdod | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Mesur Cynnydd

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle y bo'n ofynnol ac adrodd wrth yr Aelodau ar y canlyniadau. | # yr ymarferion sgrinio a gwblhawyd<br># yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd a'r canlyniadau yr adroddwyd arnynt wrth yr Aelodau | Nid yw penderfyniadau a pholisïau'n effeithio'n negyddol ar grwpiau gwarchodedig, a lle nad yw camau lliniarol yn bosibl gellir cyfiawnhau penderfyniadau. |
| Gweithio gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a sefydliadau eraill yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith a gyrfa mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys defnyddio cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau ac i wirfoddoli. | Data Monitro Cydraddoldeb – Ymgeiswyr % ar draws y grwpiau cydraddoldeb<br>Gweithgareddau a gyflawnwyd | Nifer uwch o ymgeiswyr am swyddi o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae cynyddu'r gronfa o ymgeiswyr yn ganolog i allu cynyddu amrywiaeth o fewn y gweithlu yn y tymor hwy. |
| Cynnal menter i gynyddu'r data monitro cydraddoldeb a ddelir ar staff presennol trwy ddatblygu negeseuon eglur ar gyfer staff ynglŷn â'r rheswm pam fod angen gwybodaeth ac ar gyfer beth y bydd yn cael ei defnyddio. | % yr Wybodaeth Monitro Cydraddoldeb a gwblhawyd ar Pobl y Parc | Bydd hyn yn darparu'r data sylfaenol ar gyfer dadansoddiad pellach o amrywiaeth y gweithlu a chamau gweithredu posibl y mae eu hangen. Mae staff yn gwybod pam fo angen gwybodaeth ac ar gyfer beth y bydd yn cael ei defnyddio. |
| Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo twristiaeth hygyrch gan gysylltu â darparwyr twristiaeth lleol, Grŵp Mynediad Sir Benfro a Cerddwyr Anabl. | Diweddariad ar waith gyda phartneriaid<br># Cadeiriau Olwyn ar gyfer Traethau | Mae'r Parc Cenedlaethol a Sir Benfro yn cael eu hystyried yn Ganolfan Dwristiaeth Hygyrch. Nid yw pobl yn cael eu heithrio rhag profi a mwynhau'r Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig. |
| Hyrwyddo ein harlwy twristiaeth a hamdden gynaliadwy ni ein hunain i dwristiaid a thrigolion trwy | # y lawrlwythiadau ar gyfer teithiau cadeiriau olwyn<br>Adborth defnyddwyr gwasanaethau ac ymwelwyr | |

| | | |
|---|---|---|
| hyrwyddo ein hadnoddau ar-lein yn fwy. | | |
| Cynnal archwiliad o wasanaethau sy'n ymdrin â chwsmeriaid a gwasanaethau hyrwyddo i adnabod bylchau o ran darparu gwasanaethau a rhwystrau i grwpiau penodol. | Canlyniad yr adroddiad archwilio | Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu ein gallu i ddarparu gwasanaethau gwell ar gyfer grwpiau dynodedig, megis Deall Dementia, Iaith Arwyddion Prydain, Crystal Mark for Plain English gan arwain at ddarparu gwasanaethau mwy cynhwysol. |
| Parhau i gynnig cymorth a hyfforddiant i ystod o grwpiau a sefydliadau a oedd yn rhan o'r prosiect Eich Parc a gyllidwyd ag arian y Loteri yn 2012-16 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i gael mynediad at yr awyr agored. | # y bobl anodd i'w cyrraedd yr ymgysylltwyd â hwy Adborth gan gyfranogwyr ar yr effaith | Mae grwpiau a sefydliadau cymorth yn gweithio gyda chymunedau difreintiedig i ddarparu canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n ymgysylltu â hwy trwy ddefnyddio'r Parc a chyfleoedd yn yr awyr agored ar drothwy'r drws. |
| Datblygu calendr o weithgareddau codi ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau amrywiaeth ehangach megis wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb, diwrnod amser siarad, Mis Dathlu Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a Mis Dathlu Hanes Phobl Dduon. | Calendr wedi'i gynhyrchu a diweddariad ar y gweithgareddau | Cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith staff am faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb gan eu galluogi i ddarparu gwasanaethau cynhwysol a chreu amgylchedd gwaith cynhwysol. |
| Parhau â'r Cynllun Mentora i roi anogaeth ar gyfer ceisiadau am benodiadau Llywodraeth Cymru gan ystod ehangach o grwpiau. | Diweddariad ar y cynllun | Yn y tymor hir, gweld cynnydd yn amrywiaeth yr aelodau o'r Awdurdod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| Datblygu model trwy weithio gyda'n parcmyn ieuenctid ni ein hunain, ysgolion, colegau a | Datblygu model ymgysylltu | Mae plant a phobl ifanc yn yr ardal yn fwy ymwybodol o ddiben a rôl yr Awdurdod ac mae ganddynt lais yn ei |

| | | |
|---|---|---|
| darparwyr gwasanaethau ieuenctid eraill yn Sir Benfro i ddatblygu model i alluogi pobl ifanc i oleuo a chyfrannu at ddatblygiad Cynllun Rheoli nesaf y Parc Cenedlaethol. | | gynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| Byddwn yn monitro ac yn ymateb i ddatblygiadau o ran newidiadau i raddfeydd y Cydgyngor Cenedlaethol. | Diweddariad i'r Aelodau ar y goblygiadau ar gyfer yr Awdurdod. | Mae staff yn dal i gael cyflog teg. |
| Datblygu Cynllun Ymgysylltu ar gyfer yr Awdurdod | Datblygu'r cynllun. | Mae ymgysylltiad cynhwysol wedi'i sefydlu ar draws yr Awdurdod. |

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn: £622,000**

## Amcan Llesiant 5: Annog cymunedau i ymgysylltu'n fwy â'r Parc Cenedlaethol

**Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'n ffordd o weithio**

### Hirdymor

- Mae darparu tai fforddiadwy yn helpu i greu cymunedau cynaliadwy gan alluogi pobl sy'n treulio'u magwraeth yn y Parc Cenedlaethol i gael y cyfle i barhau i fyw yma unwaith y maent wedi troi'n oedolion. Yn 2015/16 roedd 27% (5 uned) o'r holl unedau tai a gafodd ganiatâd cynllunio'n rhai fforddiadwy a chodwyd £70,207 trwy gytundebau A106. Mae'r tai fforddiadwy'n cynnwys datblygiad bach o 3 uned a dwy uned sengl a ddarperir ochr yn ochr â thai'r farchnad.
- Trwy'r cynllun Parcmyn Ieuenctid rydym yn gallu codi ymwybyddiaeth ac annog pobl ifanc i ymgysylltu â nodweddion arbennig y Parc, gan feithrin diddordeb a dealltwriaeth a all bara am oes a chael eu rhannu gydag eraill.

### Atal

- Er mwyn gwneud gwaith ataliol cynaliadwy yn y Parc mae'n hollbwysig bod cymunedau wedi'u cynnwys yn ein gwaith. Dangoswyd hyn trwy'r prosiect Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol gyda Chysgysylltydd y Prosiect yn cael peth wmbredd o gymorth gan grwpiau ac unigolion gan gynnwys Cymdeithas Llandudoch, Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro a Chymdeithas Genweirwyr Nanhyfer.
- Ein gwasanaethau rheng-flaen, y Parcmyn, y Wardeniaid, y Tîm Darganfod a Staff Canolfannau yw gwedd y sefydliad yn y gymuned. Mae ganddynt rôl hanfodol o ran meithrin cysylltiadau cadarnhaol mewn cymunedau sy'n helpu i ddatrys materion a phryderon cyn iddynt waethygu.

### Integreiddio

- Nid yw pob cymuned o fewn ffiniau'r Parc yn ymgysylltu gymaint ag eraill. Mae angen gwneud gwaith mapio pellach i adnabod ardaloedd lle gall fod angen gwaith pellach o ran ymgysylltu â chymunedau a'u datblygu. Mae hefyd yn bwysig bod yr Awdurdod yn ystyried sut y gall ymgysylltu â chymunedau y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol, gan gynyddu i'r eithaf ei statws fel 'Ffatri Llesiant' er budd cymunedau eraill yng Nghymru.

- Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ei ddull o orfodi mewn perthynas â safleoedd a lleiniau gwersylla a charafanio diawdurdod sy'n gallu cael effaith negyddol ar gymunedau cyn haf 2017. Bydd ymdrin â'r mater yn effeithiol yn golygu cynnal cyswllt agos â Chyngor Sir Penfro a sefydliadau eraill.

## Cydweithio

- Trwy ddigwyddiadau a defnydd o gyfleusterau gan y gymuned yng Nghastell Henllys, Oriel y Parc a Chaeriw mae gan y lleoliadau hyn y potensial i ddod yn ganolbwyntiau cymunedol, gan helpu i atal arwahanrwydd cymdeithasol a meithrin cysylltiadau a chydnerthedd cymunedol. Er enghraifft, cynhelir caffi atgofion ar hyn o bryd yn Oriel y Parc ac ar draws lleoliadau cynhelir Ffeiriau a digwyddiadau tymhorol i ddod â chymunedau ynghyd.
- Mae ein Parcmyn yn parhau i ddatblygu prosiectau cymunedol megis y prosiect Pizza a darparu digwyddiadau cymunedol megis diwrnod Afal. Trwy brosiectau dehongli sy'n cynnwys grwpiau cymunedol rydym yn cynorthwyo cymunedau i adrodd eu storïau am y Parc Cenedlaethol.

## Cynnwys

- Rydym am gynnwys pobl leol trwy eu hannog i chwarae rhan fwy uniongyrchol yn y gwaith o ofalu am y Parc. Er mwyn gwneud hyn rydym yn archwilio potensial cynllun ceidwaid lle byddem yn recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr sy'n goruchwylio'u hunain ac yn rhoi gorchwyl iddynt weithredu fel gwirfoddolwyr 'ar gyfer darnau o lwybrau' a cheidwaid neu stiwardiaid ar gyfer safleoedd hanesyddol a safleoedd eraill penodol a ddewiswyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Mae gwasanaeth cwsmeriaid yn bwysig i'r gwasanaeth cynllunio. Yn arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru 2015-16 dywedodd 70% o'r ymatebwyr fod y parc yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus o'i gymharu â chyfartaledd o 58% ar gyfer Cymru. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu cymhorthfa gynllunio sy'n gweithredu ar sail slotiau hanner awr y gellir eu harchebu ar ddydd Iau. Cafwyd ymateb da i gyflwyno'r cyfle hwn ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chynllunwyr. Y meysydd yr ydym yn gobeithio'u datblygu ymhellach ac a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau yw rheoli dogfennau ar-lein a gwella cyswllt â'r rhai y mae'r tîm gorfodi'n gweithio gyda hwy.



| Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 5 | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio polisïau cynllunio i hybu tai fforddiadwy. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Parc trwy Geidwaid Ieuenctid a'n gwaith gyda chlybiau ieuenctid eraill. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ennyn ymgysylltiad grwpiau cymunedol presennol a chymunedau newydd â phrosiectau a digwyddiadau cymunedol yn y Parc. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darparu prosiectau dehongli sy'n cynnwys grwpiau cymunedol i gynorthwyo cymunedau i adrodd eu storïau am y Parc Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Defnyddio asedau'r Parc i letya cyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu a hyrwyddo cynllun gwirfoddoli fel ceidwad ar gyfer 'darnau o lwybrau' a cheidwaid neu stiwardiaid ar gyfer safleoedd hanesyddol a safleoedd eraill a ddetholwyd gan yr APC. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i hybu gwasanaeth cwsmeriaid da trwy'r Tîm Cynllunio. | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| Cynnal perthnasoedd cadarnhaol mewn cymunedau. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Mesur Cynnydd

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Parhau i ddefnyddio polisïau cynllunio i hybu tai fforddiadwy er mwyn gweld cynnydd yn nifer yr unedau a gaiff eu cymeradwyo. | # yr Unedau Tai Fforddiadwy a gymeradwywyd<br>% yr Unedau Tai Fforddiadwy a gymeradwywyd<br>£ A106<br>£ Ardoll Gymunedol | Lefel uwch o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal, gydag effaith gadarnhaol ar greu cymunedau lleol cynaliadwy. |
| Parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Parc trwy'r Parcmyn Ieuenctid a gwaith gyda chlybiau ieuenctid eraill. | # Youth Rangers<br># y gweithgareddau a gynhelir gan y Parcmyn Ifanc a phobl ifanc<br>Astudiaethau Achos/ Adborth gan Barcmyn Ieuenctid | Mae pobl ifanc yn ymgysylltu ac yn cyfrannu at gynnal nodweddion arbennig y Parc. |
| Ceisio ehangu grwpiau cymunedol a chymunedau sy'n rhan o'r prosiect Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol (o fewn ardal y prosiect). | Enghreifftiau o gymunedau newydd sydd wedi cael eu cynnwys trwy'r prosiect Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol | Mae cymunedau'n teimlo'u bod wedi ymgysylltu â'r Parc gyda manteision ar y ddwy ochr yn helpu i feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol. |
| Parhau â'r ymwneud gan Barcmyn a'r Tîm Darganfod â datblygu a chyflawni prosiectau cymunedol gyda chymunedau y tu mewn a'r tu allan i'r Parc. | # y digwyddiadau ymgysylltu â chymunedau - Parcmyn/Tîm Darganfod<br>Astudiaethau Achos – Parcmyn/Tîm Darganfod | |
| Mapio cyswllt o fewn cymunedau i gael dealltwriaeth am yr ardaloedd hynny yn y Parc a'r tu allan i'r Parc lle mae angen ymgysylltiad pellach. | Ymarfer mapio: Adnabod cymunedau nad ydynt yn ymgysylltu llawer | |
| Datblygu digwyddiadau dros dro. | # y rhai a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau dros dro | |
| Darparu prosiectau dehongli sy'n cynnwys grwpiau cymunedol i | # y prosiectau dehongli sy'n cynnwys grwpiau cymunedol ac yn eu | Mae cymunedau'n teimlo'u bod wedi ymgysylltu ac yn rhan o adrodd hanes y Parc, |

| | | |
|---|---|---|
| gynorthwyo cymunedau i adrodd eu storïau am y Parc Cenedlaethol. | cynorthwyo i adrodd eu storïau am y Parc Cenedlaethol | gan gyfoethogi naratifau am y Parc ar eu cyfer hwy eu hunain, ar gyfer yr Awdurdod ac ar gyfer eraill. |
| Parhau i gefnogi grwpiau cymunedol yn Oriel y Parc. | # y grwpiau cymunedol sy'n defnyddio OYP / Adborth gan grwpiau cymunedol | Mae cyfleusterau'r Parc yn cael eu defnyddio i ddod â chymunedau ynghyd gan feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol a chael gwared ar arwahanrwydd cymdeithasol. |
| Cynnal ffeiriau a digwyddiadau sy'n dod â'r gymuned ynghyd. | # y digwyddiadau a ffeiriau<br># y rhai a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau a ffeiriau cymunedol | |
| Adnabod cyfleoedd newydd i gynyddu defnydd y gymuned o'n cyfleusterau i'r eithaf. | Adroddiad diweddaru | |
| Datblygu cynllun ceidwaid gwirfoddol ar gyfer 'darnau o lwybrau', safleoedd hanesyddol a safleoedd eraill yn y Parc. | Diweddariad ar ddatblygiad y cynllun | Mae cymunedau lleol yn ymrwymedig i gynnal a chadw llwybrau troed, safleoedd hanesyddol a safleoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol a mynediad atynt. Manteision o ran llesiant i wirfoddolwyr. |
| Parhau i hybu gwasanaeth cwsmeriaid da trwy'r Tîm Cynllunio trwy weithredu cyfleuster ar-lein newydd i reoli dogfennau, darparu swyddog dyletswydd a gwella cyswllt â'r rhai y mae'r tîm gorfodi'n gweithio gyda hwy. | Dangosyddion cynllunio Llywodraeth Cymru ar Ymgysylltu<br>% yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod<br>Yr amser a gymer ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi<br>% yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod<br>Yr amser a gymer ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi<br>Canlyniadau Arolygon Cwsmeriaid | Mae pobl yn cael profiad cadarnhaol o'r gwasanaeth cynllunio gydag effaith ehangach ar gysylltiadau rhwng yr Awdurdod a chymunedau yn y Parc. |
| Datblygu ffyrdd o gasglu gwybodaeth am yr effaith gadarnhaol y mae ein gwasanaethau rheng-flaen yn ei chael ar gysylltiadau cymunedol i ddangos | Dull wedi'i ddatblygu i gasglu gwybodaeth am effaith gadarnhaol gwasanaethau rheng-flaen ar gymunedau. | Mae effaith staff rheng-flaen ar gysylltiadau cymunedol a'u rôl o ran hwyluso gwaith ehangach yr Awdurdod yn cael eu cydnabod.<br>Mae staff ar draws timau'n |

| | | |
|---|---|---|
| enghreifftiau cadarnhaol a dysgu ohonynt. | | gallu dysgu o enghreifftiau cadarnhaol. |

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn: £628,000**

## Amcan Llesiant 6: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal

**Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'n ffordd o weithio**

**Hirdymor**

- Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd hybu a dathlu'r cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth, tirwedd a diwylliant. Un ffordd o wneud hyn yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol pryd y maent yn y Parc Cenedlaethol. Gall adnoddau dehongli Porth i'r Parc mewn ardaloedd megis meysydd parcio fod o gymorth yn hyn o beth.
- Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gwaith ac i ymgysylltu â chwsmeriaid a chyfranogwyr Cymraeg eu hiaith. Mae gweithgareddau i ysgolion yn cael eu darparu'n rheolaidd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae parcmyn yn darparu gweithgareddau eraill yn Gymraeg megis sesiwn ar blannu mes a gweithgaredd sy'n ymwneud â choed i blant sy'n mynychu Adran yr Urdd (plant 7-11 oed)

**Atal**

- Mae gan y Parc 285 o Henebion Rhestredig, a thros 7500 o safleoedd yng Nghofnod yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae dros 1200 o adeiladau rhestredig ac 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Mae naw Ardal Tirwedd Hanesyddol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, ac mae 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc. Mae gennym rôl bwysig o ran cynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ynghylch eu rheoli.
- Mae Iawn cyn bwysiced cynnal a chadw ein safleoedd hanesyddol ni ein hunain. Rydym yn defnyddio sgiliau ein Wardeniaid i alluogi cyfleoedd addysg i ddigwydd yn ystod y broses o ailadeiladu'r tai crynion yng Nghastell Henllys.

**Integreiddio**

- 2017 yw 'Blwyddyn Chwedlau' Croeso Cymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn Sir Benfro i ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau.
- Mae'r awdurdod yn archwilio cyfleoedd ym maes twristiaeth treftadaeth trwy gynnig dan y Rhaglen Interreg ar gyfer Llwybrau Celtaidd, sy'n cynnwys partneriaid yng Nghymru ac Iwerddon. Mae'r cynnig yn un ar gyfer gweithrediad ar y cyd a fydd yn profi dichonoldeb cyfres o lwybrau twristiaeth trawsffiniol sy'n cyfuno asedau

naturiol, diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru ac Iwerddon i gynyddu niferoedd yr ymwelwyr.

### Cydweithio

- Menter gydweithredol unigryw rhwng Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw Oriel y Parc. Mae’r ganolfan yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr, yn lletya digwyddiadau celfyddydol a cherddorol ac yn cynnwys oriel. Mae Amgueddfa Cymru yn darparu arddangosfa sy’n newid yn rheolaidd o gelf ac arteffactau sy’n seiliedig ar themâu sy’n gysylltiedig â’r dirwedd, gan ddarparu cyfle i arddangos eitemau sydd fel arall mewn ystorfeydd fel arall.
- Trwy gyflogi archeolegydd cymunedol rydym yn ceisio cydweithio gyda chymunedau yn y parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol.

### Cynnwys

- Mae preswyliadau yn Oriel y Parc yn galluogi artistiaid i gael eu hysbrydoli gan harddwch tirwedd y Parc Cenedlaethol a gweithio gyda grwpiau ac ysgolion lleol i greu celfweithiau gwreiddiol.
- Trwy Gaeriw a Chastell Henllys a gweithgareddau mewn ardaloedd eraill ledled y Parc mae’r cyhoedd a phlant ysgol yn cael eu cyflwyno i hanes a chyn-hanes yr ardal. Ychwanegir at gyfleoedd dysgu trwy ddeunydd dehongli, digwyddiadau a gweithgareddau.

## Adborth gan Athrawon

**“Cyswllt gwych â gwaith llythrennedd gyda disgyblion yn ysgrifennu eu mythau a chwedlau eu hunain. Profiad gwych yn Eglwys Nanhyfer a ddaeth yn fyw diolch i ddawn Craig y Parcmon i adrodd stori mewn modd cyffrous. Diolch yn fawr, Craig! Bendigedig. Gobeithio y gwelwn ni chi eto’r flwyddyn nesaf gyda myfyrwyr newydd.”**

**“Roedd ein hymweliad â Chastell Henllys yn rhan o’n cwrs preswyl yn Sir Benfro yr ydym yn ei gynnal bob blwyddyn. Mae’r Parc yn hardd ac yn ysbrydoliaeth i’r plant ac maent yn dysgu llawer o hanes/daearyddiaeth a gwyddoniaeth tra’u bod i ffwrdd ac yn syrffio hefyd!”**

**“Fe gawsom y wibdaith ysgol orau erioed yng Nghaeriw. Roedd y staff yn barod eu cymwynas hefyd ac yn garedig wrth y plant. Fe gawsant fudd mawr o’r gweithdai ac fe ddysgon nhw sgiliau newydd.”**

| Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 6 | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu adnoddau dehongli Porth i'r Parc Cenedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd eu bod mewn Parc Cenedlaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gwaith ac i ymgysylltu â chwsmeriaid a chyfranogwyr Cymraeg eu hiaith. | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol sut i'w rheoli. | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnwys grwpiau addysgol/cynhwysiant cymdeithasol a wardeniaid yn y prosiect i ailadeiladu'r tai crynion yng Nghastell Henllys. | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gydag Amgueddfa Cymru i arddangos eu Casgliad Cenedlaethol a pharhau i gefnogi'r cynllun artist preswyl. | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo Blwyddyn Chwedlau yn ein hymgyrchoedd marchnata a'n gweithgareddau. | ✓ | | | | | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo'r amgylchedd a diwylliant hanesyddol trwy Gastell Caeriw a Chastell Henllys. | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynorthwyo grwpiau cymunedol yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol. | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |

### Mesur Cynnydd

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Datblygu adnoddau dehongli Porth i'r Parc Cenedlaethol gyda ffocws ar feysydd parcio. | # yr adnoddau Porth i'r Parc Cenedlaethol a gwblhawyd Defnydd o adnoddau/ adborth | Cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd eu bod yn y Parc Cenedlaethol. |
| Gweithredu'r cynllun datblygu iaith Gymraeg ar gyfer staff. | Diweddariad ar weithredu | Ymgysylltiad cynyddol gan staff a'r cyhoedd â'r Gymraeg. |
| Darparu ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. | # y gweithgareddau a ddarparwyd gan Barcmyn, Parcmyn Darganfod a'r Canolfannau<br># Sesiynau mewn ysgolion yn Gymraeg | |
| Coladu adborth cadarnhaol gan | Adroddiadau adborth | |

| | | |
|---|---|---|
| gwsmeriaid ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ein canolfannau a chan staff i helpu i hybu defnydd o'r Gymraeg. | | |
| Parhau i gynghori perchenogion adeiladau a safleoedd hanesyddol sut i'w rheoli. | % yr adeiladau sydd mewn perygl | Gostyngiad yn nifer yr adeiladau sydd mewn perygl. |
| Cynnwys grwpiau addysgol/ cynhwysiant cymdeithasol a Wardeniaid yn y broses o adeiladu tai crynion yng Nghastell Henllys. | Adroddiad diweddaru | Mwy o ddealltwriaeth a gwybodaeth am y technegau sy'n rhan o adeiladu tai crynion a hanes Castell Henllys. |
| Gweithio gydag Amgueddfa Cymru i arddangos eu Casgliad Cenedlaethol. | # yr ymwelwyr â'r Oriel<br>Cyfradd drosi'r Oriel | Mae nifer cynyddol o bobl yn ymgysylltu â gwaith celf o'r Casgliad Cenedlaethol. |
| Hyrwyddo Blwyddyn y Chwedlau trwy weithgareddau a digwyddiadau. | # y cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â Blwyddyn y Chwedlau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod | Mwy o ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a'u cysylltiadau â chwedlau'n cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth dreftadaeth. |
| Hyrwyddo diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol trwy Gastell Caeriw a Chastell Henllys, y rhaglen ysgolion, gwaith dehongli a digwyddiadau a gweithgareddau. | # y cyfranogwyr diwylliannol<br># y cyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol<br>#y plant ysgol sy'n rhan o weithgareddau hanesyddol<br>Adborth athrawon<br>Adborth Ymwelwyr | Mae gan ymwelwyr a thrigolion fwy o werthfawrogiad, dealltwriaeth a gwybodaeth o hanes yr ardal. |
| Cynorthwyo grwpiau cymunedol yn y parc i adfer safleoedd hanesyddol o ddiddordeb. | # y safleoedd y mae cymunedau'n ymwneud â hwy<br>Canlyniad yr ymwneud | Mae cymunedau'n cydnabod gwerth safleoedd hanesyddol yn y Parc. Mae safleoedd hanesyddol yn cael eu hadfer yn y Parc. |

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan hwn: £1,029,000**

## Amcan Llesiant 7: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang

**Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'n ffordd o weithio**

**Hirdymor:**

- Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod yn helpu i gefnogi prosiectau arloesol ym maes cynaliadwyedd ar draws Amcanion Llesiant yr Awdurdod a'r Nodau Llesiant ehangach. Mae nifer o brosiectau'n dwyn goblygiadau cadarnhaol ar gyfer agenda Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Mae eraill yn cynnwys grwpiau cymunedol neu'n canolbwyntio ar gadwraeth.
- Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i leihau ei ôl troed carbon. Trwy ein prosiect i 'Troi Ein Hadeiladau'n Fwy Gwyrdd' rydym wedi gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy mewn llawer o adeiladau gan gynnwys boeleri biomas, paneli ffotofoltaidd a solar a phympiau gwres o'r aer a'r ddaear. Sicrhawyd cyflawniadau arwyddocaol ym mhencadlys APCAP yn Llanion gyda'r adeilad yn ennill tystysgrif ynni â sgôr 'B' pan fyddai adeilad nodweddiadol o'r un oedran a maint yn cael sgôr D neu E.

**Atal**

- Mae addysg a chodi ymwybyddiaeth yn cyflawni rôl bwysig o ran annog pobl i newid eu hymddygiad mewn ffyrdd a all gael effaith gadarnhaol ar y Parc a'r amgylchedd byd-eang ehangach. Fel rhan o'r prosiect Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol mae taflenni wedi cael eu datblygu i addysgu pobl beth i'w wneud i atal rhywogaethau goresgynnol rhag ymledu.
- Trwy gydweithio gydag ysgolion lleol mae'r awdurdod yn gallu codi ymwybyddiaeth ymhlith plant lleol o nodweddion arbennig y Parc mewn modd cadarnhaol, addysgiadol a diddorol, gan helpu i gynyddu i'r eithaf eu dealltwriaeth am y dirwedd arbennig y maent yn byw ynddi a'u mwynhad ohoni.

**Integreiddio**

- Rydym yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a'i grŵp data. Mae'r Bwrdd yn cynnal asesiad llesiant ac yna bydd angen iddo ddatblygu amcanion a chynllun llesiant lleol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal.

- Trwy Rwydwaith Ymgysylltu Sir Benfro rydym wedi bod yn rhan o ddatblygu'r ymarfer a'r ddarpariaeth ymgysylltu yn Sir Benfro. Mae'r rhwydwaith hwn yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth, syniadau a dysgu o arfer da.

**Cydweithio**

- Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at seiliau gwybodaeth ehangach sy'n helpu i greu darlun hirdymor a goleuo penderfyniadau polisi mewn perthynas â chydnerthedd a Bioamrywiaeth. Er enghraifft, caiff data a gasglwyd trwy'r rhaglen rheoli tir ei chyflwyno i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.
- Er mwyn rhoi cymorth i hyrwyddo dulliau cludiant mwy cynaliadwy yn yr ardal ac o ran ein gweithlu rydym wedi darparu man gwefru trydan yn Oriel y Parc. Mae staff hefyd yn cyfranogi mewn diwrnod beicio i'r gwaith blynyddol i hyrwyddo'r dull cludiant hwn.

**Cynnwys**

- Mae ein Prosiect Arfordir Newidiol yn gofyn i bobl dynnu a rhannu ffotograffau mewn lleoliadau penodol i helpu i ddogfennu'r broses o newid arfordirol. Dewiswyd pob lleoliad er mwyn helpu i gofnodi gwahanol fathau o newidiadau megis erydiad Twyni a Chlogwyni, newid mewn llystyfiant, lefelau'r tywod, glannau caregog, cyrsiau nentydd a llifogydd. Mae'r cyhoedd wedi cyfrannu 359 o luniau hyd yma.
- Os yw teulu'n treulio pedwar diwrnod (neu o leiaf 24 awr) neu fwy yn darganfod, arbrofi, gwarchod a rhannu mannau gwyllt yn y Parc yna gallant ennill Gwobr John i Deuluoedd Arfordir Penfro.

**"Helo
Fe wnaethom fel yr oeddech chi'n ei ddymuno. :-)
Cerdded o Aber Bach i Solfach heddiw.
Yr holl ffordd o'r Swistir.
Diolch yn fawr am wneud hyn yn bosibl. Mae ein sir yn syfrdannol. Rydym yn cael amser bendigedig. Byddwn yn siŵr o ddychwelyd."**

Cyfrannwr i'r Prosiect Arfordir Newidiol



| Sut y byddwn yn cyflawni Amcan Llesiant 7 | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i roi anogaeth ar gyfer prosiectau arloesol sy'n cefnogi'r Nodau Llesiant ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i leihau allyriadau carbon yr Awdurdod a chynnal/cynyddu'r % o ynni sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy. | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy o fewn yr Awdurdod a'r Parc trwy ein man gwefru cerbydau trydan yn Oriel y Parc a mentrau eraill. | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Cyfrannu at seiliau tystiolaeth ehangach ar fioamrywiaeth ac ecosystem trwy Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Ymgysylltu ag ysgolion a'r cyhoedd trwy raglen weithgareddau i gynyddu dealltwriaeth am nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a bygythiadau'r newid yn yr hinsawdd. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i baratoi amcanion a chynllun llesiant. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parhau i annog pobl i gofnodi'r modd y mae'r dirwedd yn newid trwy'r prosiect Arfordir Ar Daith. | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Hyrwyddo a chynyddu nifer y teuluoedd sy'n ennill Gwobr Deuluol John Muir. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Mesur Cynnydd

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Defnyddio grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i roi anogaeth ar gyfer prosiectau arloesol sy'n cefnogi Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. | % o gyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a ddyrannwyd £ a # y prosiectau byw a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n cefnogi gwahanol nodau/ amcanion llesiant Enghreifftiau o brosiectau | Holl gyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi'i ddyrannu. Mae prosiectau a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cyfrannu at y Nodau/ Amcanion Llesiant. Mae prosiectau a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cyfrannu at ddatblygiadau yn y sector Twf Gwyrdd yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| Parhau i ostwng allyriadau carbon yr Awdurdod a chynnal/cynyddu % yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy | Allyriadau $CO_2$ a achosir gan ein hynni a'r teithio a wnawn<br>% yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy<br>Sgôr Ynni ar gyfer Llanion | Mae allyriadau $CO_2$ yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn |
| Hyrwyddo a chynyddu defnydd o fan gwefru trydan Oriel y Parc o fewn yr Awdurdod a chan asiantaethau eraill | Trydan a ddefnyddir o'r man gwefru | Mwy o ymgysylltiad â dulliau cludiant cynaliadwy yn y Parc. |
| Cyfrannu gwybodaeth i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Cymru | # y setiau data a lanlwythwyd i'r Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth | Mae gwybodaeth a gasglwyd gan yr Awdurdod ar gael ac yn cael ei defnyddio i roi cymorth i fonitro Ecosystemau'r Parc Cenedlaethol, ac yn helpu i oleuo polisi cenedlaethol a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r gofrestr risgiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Darparu rhaglen o weithgareddau ar gyfer ysgolion a'r cyhoedd i gynyddu dealltwriaeth am nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a bygythiadau'r newid yn yr hinsawdd. | # y plant ysgol yr ymgysylltwyd â hwy<br>Sgôr adborth cyfartalog (1-11)<br># y cyfranogwyr yn y rhaglen o weithgareddau (cyhoedd) | Mwy o ddealltwriaeth am nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a bygythiadau'r newid yn yr hinsawdd ymhlith plant a'r cyhoedd sydd wedi bod yn ymgysylltu â'r Awdurdod. |
| Parhau i ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac adrodd ar ei gynnydd o ran datblygu amcanion a chynllun llesiant. | Diweddariad ar gyfer yr Aelodau ar yr Amcanion a'r Cynllun Llesiant a'r effaith ar gyfer y Parc | Dylanwedir ar ddatblygiad yr amcanion a'r cynllun llesiant ac mae Aelodau'n cael eu hysbysu beth mae hyn yn ei olygu i'r Awdurdod. |
| Parhau i gynnwys pobl yn y broses o gofnodi'r dirwedd newidiol trwy'r prosiect Arfordir Newidiol. | # y ffotograffau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect Arfordir Newidiol | Cofnod ffotograffig o'r broses o newid arfordirol wedi'i gynhyrchu. Gellir defnyddio'r dystiolaeth ar gyfer addysg ac ymgysylltu pellach a gwaith pellach gan yr Awdurdod. |
| Hyrwyddo Gwobr John Muir i Deuluoedd a chynyddu nifer y teuluoedd | # Nifer y Gwobrau John Muir i Deuluoedd a roddwyd | Mae gan deuluoedd fwy o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Parc |

| | | |
|---|---|---|
| sy'n ei hennill. | | Cenedlaethol, a hynny'n cyfrannu at gynnal nodweddion arbennig y Parc. |

**Adnoddau a Ddyrannwyd i'r Amcan Hwn: £605,000**

## Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol

### Llywodraethu o fewn yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod llawn yn cwrdd o leiaf chwe gwaith bob blwyddyn i ystyried materion polisi a gwneud penderfyniadau ynghylch eitemau nad ydynt wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr. Mae'r Awdurdod llawn yn pennu'r gyllideb bob mis Chwefror. Mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cwrdd bob chwe wythnos i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Adroddir ar berfformiad gweithredol bob chwarter wrth y Pwyllgor Adolygu Gweithredol gydag adroddiadau cyllid ac archwilio'n cael eu cyflwyno'n chwarterol hefyd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio. Gall y ddau bwyllgor adolygu argymell yr angen am weithredu pellach wrth yr Awdurdod llawn. Hefyd, mae cyfarfodydd Rheolwyr wythnosol a chyfarfodydd Arweinwyr Timau misol yn adolygu perfformiad.

Yn dilyn adolygiad canol tymor mae'r cylch cynllunio perfformiad yn ailddechrau i baratoi'r gyllideb a blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y flwyddyn ganlynol gyda chyfres o weithdai a fynychir gan Aelodau.

## Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol

### Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy – Wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'n ffordd o weithio

#### Hirdymor

- Mae llywodraethu effeithiol a chynaliadwyedd ariannol yn ganolog i gynllunio hirdymor yn yr Awdurdod.
- Mae cynllun corfforaethol yr Awdurdod a'r broses ar gyfer adrodd ar berfformiad yn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Nodau Llesiant ynddi.

#### Atal

- Mae mecanweithiau ar gyfer adrodd ynghylch iechyd a diogelwch yn helpu i sicrhau bod tueddiadau a materion posibl yn gallu cael eu hadnabod, a bod ymatebion effeithiol yn gallu cael eu rhoi ar waith.
- Staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn eu hiechyd a'u llesiant. Er enghraifft, eleni fel ffordd o gynorthwyo staff i gadw'n iach y gaeaf hwn, rydym wedi cynnig y cyfle i bawb (nad ydynt eisoes yn gymwys ar y GIG) i gael brechiad am ddim rhag y ffliw.

**Integreiddio**

- Mae'r Awdurdod yn monitro cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r sector cyhoeddus a rhwymedigaethau eraill gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Dyletswyddau Cydraddoldeb a Diogelu Data.

**Cydweithio**

- Er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn cydweithio gyda'i Aelodau, gan roi cymorth pan fo angen. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ennill y Siarter Uwch i Aelodau.

**Cynnwys**

- Mae'r Awdurdod yn rhan o adolygiad o lywodraethu ochr yn ochr ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried diwylliant llywodraethu o fewn y sefydliadau. Mae'r ymwneud a'r adborth gan Staff ac Aelodau'n rhan ganolog o'r broses hon.









| Sut y byddwn yn cyflawni mewn perthynas â Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwilio i fecanweithiau darparu eraill i sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu'r gwasanaethau y mae ar drigolion, ymwelwyr a phartneriaid eu hangen o fewn y cyllid sydd ar gael. | ✓ | | | | | | ✓ |
| Parhau i hyrwyddo Gweithle Iach. | ✓ | | ✓ | ✓ | | | |
| Parhau i fonitro digwyddiadau iechyd a diogelwch. | ✓ | | ✓ | | | | |
| Ennill y Siarter Aelodau uwch. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adroddiadau blynyddol ar berfformiad mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn cael eu cwblhau. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Adolygu trefniadau Diogelu Data o fewn yr Awdurdod mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol. | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| Parhau i fonitro'r cyfryngau. | ✓ | | | | ✓ | | |
| Parhau i ymgysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch adolygu trefniadau llywodraethu. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Mesur Cynnydd**

| Cam Gweithredu 2017/18 | Mesur/Adborth | Canlyniad |
|---|---|---|
| Ymchwilio i fecanweithiau darparu eraill er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu'r gwasanaethau y mae ar drigolion, ymwelwyr a phartneriaid eu hangen o fewn y cyllid sydd ar gael. | Diweddariad ar y cynnydd | Mae'r sefydliad yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir gan ei alluogi i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Parhau i hybu gweithle iach. | Nifer y diwrnodau gwaith / sifftiau am bob un o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn yr awdurdod lleol a gollwyd o ganlyniad i absenoldebau oherwydd salwch. | Mae gan staff iechyd a llesiant gwell. Mae absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng. |
| Monitro digwyddiadau iechyd a diogelwch. | Digwyddiadau ar draws categorïau cofnodi. | Sefydlu arferion gweithio/ hyfforddiant newydd lle y bo angen. |
| Ennill y Siarter Uwch i Aelodau | Presenoldeb Aelodau yn y prif bwyllgor<br>Presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi<br>Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol wedi'i gwblhau<br>Adborth o'r Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol ar yr anghenion hyfforddi a ddiwallwyd | Mae aelodau'n meddu ar y sgiliau sy'n angenrheidiol i graffu ar yr Awdurdod. |
| Cwblhau adroddiadau blynyddol ar berfformiad o ran Safonau'r Gymraeg a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb. | Cwblhau adroddiadau<br># y cwynion mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg | Cydymffurfio â Mesur y Gymraeg a'r Ddeddf Cydraddoldeb |
| Adolygu'r drefn diogelu data o fewn yr Awdurdod mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol | Diweddariad ar yr adolygiad | Mae gan yr Awdurdod fecanweithiau cadarn ar gyfer diogelu data. |
| Parhau i fonitro'r cyfryngau | % y sylw cadarnhaol/ niwtral yn y cyfryngau | Mae gan randdeiliaid a chymunedau ganfyddiad cadarnhaol am yr Awdurdod. |
| Parhau i ymgysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru | Diweddariad ar gynnydd. | Mae gan y sefydliad drefniadau llywodraethu da. |

| | | |
|---|---|---|
| ynghylch yr Adolygiad o Lywodraethu | | |

## Amcangyfrif Drafft Cryno – Gwariant Gros 2017/18 ar y 7 Nod Llesiant

| Mae’r gost net ar gyfer gwasanaethau cymorth wedi’i dyrannu ar draws cyllidebau eraill | | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd- | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 22% | 17% | 13% | 10% | 11% | 17% | 10% | **100%** |
| | | | | | | | | | **000s** |
| **Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol** |  | 101 | 279 | 18 | 18 | 24 | 0 | 49 | **489** |
| **Gwarchod y Dreftadaeth Ddiwylliannol** |  | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 96 | 5 | **106** |
| **Hamdden a Rheoli’r Parc** |  | 172 | 70 | 172 | 70 | 70 | 70 | 74 | **698** |
| **Hybu Dealltwriaeth** |  | 293 | 264 | 188 | 157 | 113 | 473 | 134 | **1,622** |
| **Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr** |  | 168 | 168 | 168 | 168 | 168 | 168 | 169 | **1,177** |
| **Rheoli Datblygu** |  | 348 | 70 | 35 | 70 | 70 | 70 | 35 | **698** |
| **Blaengynllunio a Chymunedau** |  | 112. | 86 | 60 | 47 | 86 | 60 | 47 | **498** |
| **Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd** |  | 103 | 92 | 103 | 92 | 92 | 92 | 92 | **666** |
| **Cyfanswm Gwariant Gros Gwasanaethau** | | 1,297 | 1,029 | 744 | 622 | 628 | 1,029 | 605 | **5,954** |
| Incwm o grantiau, ffioedd, taliadau, trosglwyddiadau EMR a.y.b. -1,734 | | | | | | | | | |
| Ardoll a’r Grant Parciau Cenedlaethol -3,940 | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Addasiad nad yw mewn arian parod | -265 |
| Llog Banc | -15 |
| | **-5,954** |

**Gellir anfon sylwadau ar y fersiwn hon neu fersiynau eraill o'r Cynllun Corfforaethol i info@pembrokeshirecoast.org.uk gan roi Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan fel pwnc neu gellir ysgrifennu at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY.**